CYNGOR DINAS CASNEWYDD

Hysbysiad Statudol – Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Hysbysir yn unol ag adrannau 41 a 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Dinas Casnewydd, sydd wedi ymgynghori â'r cyfryw unigolion ag sy'n ofynnol, yn bwriadu sefydlu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ddechreuol i'w chynnal gan Gyngor Dinas Casnewydd, yn rhannu safle Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon yn Brynglas Drive, NP20 5QS ar sail dros dro o fis Medi 2016 gan drosglwyddo wedi hynny i'r safle gwreiddiol ar Ffordd Dyffryn, Casnewydd cyn gynted ag y bo modd, neu i leoliad parhaol nad yw wedi'i bennu eto ar y cyfle cynharaf posibl. Bydd yr ysgol yn darparu ar gyfer bechgyn a merched 11-18 oed yn y pen draw.

Cynhaliodd y Cyngor gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Mae adroddiad ymgynghori sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion, ymatebion y cynigiwr a barn Estyn ar gael ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn www.newport.gov.uk/schoolreorg

Bwriedir rhoi'r cynnig ar waith yn raddol dros 6 blynedd fel a ganlyn:

Cam 1 – Ar 1 Medi 2016, bydd yr ysgol yn cael ei sefydlu a bydd hyd at 90 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i Flwyddyn 7.

Cam 2 – Bydd hyd at 120 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i Flwyddyn 7 a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flwyddyn 8 ar 1 Medi 2017.

Cam 3 – Bydd hyd at 120 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i Flwyddyn 7 a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flynyddoedd 8 a 9 ar 1 Medi 2018.

Cam 4 – Bydd hyd at 150 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i Flwyddyn 7 a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flynyddoedd 8, 9 a 10 ar 1 Medi 2019.

Cam 5 – Bydd hyd at 150 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i Flwyddyn 7 a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flynyddoedd 8, 9, 10 ac 11 ar 1 Medi 2020.

Cam 6 – Bydd hyd at 150 o ddisgyblion yn cael eu derbyn i Flwyddyn 7 a bydd y disgyblion presennol yn symud ymlaen i Flynyddoedd 8, 9, 10, 11 a 12 ar 1 Medi 2021.

Derbynnir 90 o ddisgyblion 11 oed yn y flwyddyn gyntaf. Bydd y nifer hwn yn cynyddu i 120 yn yr ail a'r drydedd flwyddyn, ac i 150 ar gyfer pob blwyddyn wedi hynny.

Bydd lle ar gyfer 210 o ddisgyblion dros ddwy flynedd academaidd yn yr ysgol newydd yn y lleoliad dros dro. Bydd lle ar gyfer 900 o ddisgyblion, gan gynnwys darpariaeth ôl-16, yn yr ysgol newydd yn y lleoliad parhaol.

Bydd yr ysgol newydd arfaethedig yn ysgol gymunedol a gynhelir a Chyngor Dinas Casnewydd fydd yr awdurdod derbyn. Ni chynigir i'r trefniadau derbyn wneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer dethol yn ôl dawn neu allu.

Bydd cludiant i'r ysgol newydd yn cael ei drefnu gan yr Awdurdod Lleol cartref perthnasol a'i ddyfarnu i'r myfyrwyr hynny sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd priodol wrth eu derbyn.

Cyfnod Gwrthwynebu

O fewn 28 niwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef erbyn 23 Mai 2016, caiff unrhyw unigolyn wrthwynebu'r cynigion yn ysgrifenedig neu drwy anfon neges e-bost. Dylid anfon gwrthwynebiadau i Gyngor Dinas Casnewydd, at sylw Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth Addysg, Ystafell 425w, y Ganolfan Ddinesig, Casnewydd, NP20 4UR. Dylai gwrthwynebiadau a gyflwynir trwy neges e-bost gael eu hanfon at school.reorg@newport.gov.uk

Dyddiedig: 26 Ebrill 2016

Gareth Price
Pennaeth y Gyfraith a Rheoleiddio

Ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd
Y Ganolfan Ddinesig
Casnewydd
NP20 4UR

NEWPORT CITY COUNCIL

Statutory Notice – School Standards and Organisation (Wales) Act 2013

Notice is given in accordance with sections 41 and 48 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 and the School Organisation Code that Newport City Council, having consulted such persons as required, proposes to establish a seedling Welsh-medium secondary school to be maintained by Newport City Council, sharing the site of Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon at Brynglas Drive, NP20 5QS on a temporary basis from September 2016 with subsequent transfer to the original site on Duffryn Way, Newport as soon as possible, or to a permanent location yet to be determined at the earliest available opportunity. This school will eventually accommodate boys and girls aged 11-18 years.

The Council undertook a period of consultation before deciding to publish this proposal. A consultation report containing a summary of the issues raised by consultees, the proposer's responses and the views of Estyn is available on the Newport City Council website at www.newport.gov.uk/schoolreorg

It is proposed to implement the proposal on a phased basis over 6 years as follows:

Phase 1 – On 1st September 2016 the school will be established and up to 90 pupils will be admitted to Year 7.

Phase 2 – Up to 120 pupils will be admitted to Year 7 and the existing pupils will progress to Year 8 on 1st September 2017.

Phase 3 – Up to 120 pupils will be admitted to Year 7 and the existing pupils will progress to Years 8 and 9 on 1st September 2018.

Phase 4 – Up to 150 pupils will be admitted to Year 7 and the existing pupils will progress to Years 8, 9 and 10 on 1st September 2019.

Phase 5 – Up to 150 pupils will be admitted to Year 7 and the existing pupils will progress to Years 8, 9, 10 and 11 on 1st September 2020.

Phase 6 – Up to 150 pupils will be admitted to Year 7 and the existing pupils will progress to Years 8, 9, 10, 11 and 12 on 1st September 2021.

The admission number for 11 year old pupils in the first year is 90. This will rise to 120 in the second and third years, and 150 for every year thereafter.

The capacity for the new school at the temporary location will be 210 over two academic years. The capacity for the new school at the permanent location will be 900 including provision for post-16.

The proposed new school will be a community-maintained school and Newport City Council will be the admission authority. It is not proposed that the admission arrangements will make any provision for selection by aptitude or ability.

Transport to the new school will be arranged by the relevant home Local Authority and will be awarded to those students who meet the respective eligibility criteria on admission.

Objection Period

Within a period of 28 days after the date of the publication of these proposals, that is to say by 23rd May 2016, any persons may object in writing or by email to the proposals. Objections should be sent to Newport City Council, for the attention of the Education Service Development Manager, Room 425w, Civic Centre, Newport, NP20 4UR. Objections by email should be sent to school.reorg@newport.gov.uk

Dated: 26th April 2016

Gareth Price
Head of Law & Regulation

For Newport City Council
Civic Centre
Newport
NP20 4UR